# CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 8fed o Ionawr 2019 / 8th January 2019

**Yn bresennol / Present**: Cyng Bill Green, Cyng Sion Jenkins, Cyng Bryan Thomas, Cyng Emyr Rees, Cyng Euros Davies, Cyng Eluned Jones, Cyng Catrin Jones, Cyng Hazel Thomas, Cyng Alwena Williams

**Ymddiheiriadau/ Apologise**: Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Geraint Davies, Cyng Daniel Evans

**Materion Personol/Personal Matters:**
Llongyfarchwyd y Cyng Geraint Davies ar ddod yn ddadcu a'r Clerc ar ddod yn Anti.

| | |
|---|---|
| **1.** | **<u>Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests</u>**<br>Datgelodd y Cyng Euros Davies a'r Cyng Alwena Williams fuddiant personol ym mhwynt 5c a'r Cyng Euros Davies fuddiant personol ym mhwynt 6a. *Cllr Euros Davies and Cllr Alwena Williams declared a personal interest in point 5c and Cllr Euros Davies a personal interest in point 6a.* |
| **2.** | **<u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u>**<br>Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr yn gywir gan y Cyng. Bryan Thomas ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Emyr Rees. *The December minutes were proposed as a true record by Cllr Bryan Thomas and seconded by Cllr Emyr Rees.* |
| **3.**<br>a. | **<u>Materion yn Codi – Matters Arising</u>**<br>Sul y Cofio / Remembrance Sunday – Pasiwyd y byddai trefn y gwasanaeth fel a ganlyn, ac am roi'r drefn allan gyda'r daflen emynau. *It was passed that the service order would be as follows and that it would be distributed with the hymns.*<br>**Trefn Gwasanaeth Sul y Cofio**<br>**1yp Cofgolofn Drefach War Memorial 1pm**<br>Croeso gan y Ficer / Welcome by Vicar<br>Emyn / Hymn – Efengyl Tangnefedd<br><br>Galw enwau y milwyr o'r ddwy ryfel byd gan Cadeirydd y Cyngor Cymuned / Roll Call of soldiers from both world wars by the Chairman of the Community Council<br><br>The Ode of Remembrance - Tydfor Jenkins<br><br>They shall not grow old, — Ni heneiddiant hwy<br>as we that are left grow old, — fel ni a adawyd,<br>Age shall not weary, — Ni ddwg oed iddynt ludded,<br>nor the years condemn. — Na'r blynydoedd gollfarn mwy.<br>At the going down of the sun, — Pan elo'r haul i lawr,<br>nd in the morning, — Ac ar wawr y bore, |

| | |
|---|---|
| | We will remember them. Ni a'u cofiwn hwy.<br><br>Response: *We will remember them Ni a'i cofiwn hwy.*<br><br>The Last Post<br>Distawrwydd / Silence<br>Reveille<br><br>Cyflwyno'r Torchau pob sefydliad yn cael eu galw ymlaen / Presentation of the Wreaths each organisation to be called forward<br><br>Emyn 'O God, our help in ages past' a casgliad / Hymn 'O God, our help in ages past' and Collection<br><br>Epitaff Kohima Epitaph<br>Pan ewch adref, soniwch wrthynt amdanom a dweud,<br>"Er mwyn eich yfory chi, fe roesom ein heddiw ni."<br><br>When you go home tell them of us and say,<br>"For your tomorrow we gave our today."<br><br>Gweddi / Prayer<br>Hen Wlad fy Nhadau<br>God Save the Queen |
| b. | Tro Eglwys Llanwenog / Llanwenog Church Bend – Derbyniwyd ymateb gan y Cyngor Sir ond nid oddent yn medru rhoi arwydd 'Dim Sat Nav' ar ben yr hewl ac nid oeddent mewn sefyllfa i wneud dim. Fe basiwyd y dylsai llythyr cael ei ysgrifennu at y dair fferm ar hyd yr hewl at Brynteg yn esbonio'r sefyllfa sef Llechwedd, Ty Cam ac Abertegan. *A response was received from the County Council however they cannot put 'No Sat Nav' signs at the end of the road and they cannot do anything about the issue. It was decided to write a letter to the three farms along this road up until Brynteg to explain the situation which are Llechwedd, Ty Cam and Abertegan.* |
| c. | Taith Gerdded / Sponsored Walk – Derbyniwyd llythyr o ddiolch wrth Glangwili am y rhodd arianol ac yn dweud eu bod wedi prynu offer yn barod ac y byddant yn cysylltu i drefnu cael llun. *A letter of thanks was received from Glangwili for the donation and it also stated that they had bought the equipment and that they will be in touch for a photograph.* |
| ch. | Highmead Terrace – Mynychodd y Cyng Euros Davies, Cyng Hazel Thomas, Cyng Geraint Davies a'r Cyng Daniel Evans gyfarfod gyda Cyngor Sir Gar a Cheredigion ar safle. Mae'r ddau gyngor yn mynd i weithio gyda'i gilydd i gywain gwybodaeth a gobeithio gwella'r hewl i atal llifogydd a'i gwneud yn mwy diogel ar gyfer cerddwyr. Mi fydd cyfarfod arall mis Chwefror. *Cllr* |

| | |
|---|---|
| | *Euros Davies, Cllr Hazel Thomas, Cllr Geraint Davies and Cllr Daniel Evans attended a meeting regarding the floods with Ceredigion and Carmarthenshire County Council on site. The two Councils are going to work together to gather information and hopefully improve the road in order to prevent further flooding and make the road safer for pedestrians. Another meeting will be held in February.* |
| d. | *Gwobrau Un Llais Cymru / One Voice Wales Awards –* Roedd y Cyng Hazel Thomas a'r Cyng Alwena Williams wedi bod yn edrych ar y categoriau a'r unig un efallai y gallai'r Cyngor Cymuned gystadlu ynddo yw'r 'Gwefan orau', mi fyddent yn gwneud mwy o ymchwil er mwyn edrych ar wefannau eraill cyn rhoi cais fewn. *Cllr Hazel Thomas and Cllr Alwena Williams had been looking at the categorise and there was only one which we could potentially enter which was the 'Best Website', they will look at other Council's websites first before entering.* |
| **4.** | **Gohebiaeth – Correspondence** |
| a. | Cylchlythyr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau /Police Commissioner Newsletter – Nodwyd / Noted |
| b. | Storm Callum Storm – Nodwyd / Noted |
| **5.** | **Taliadau a Ceisiadau am arian – Payments and Requests for Money** |
| a. | Eisteddfod Capel y Groes. £80 C: Cyng Emyr Rees E: Cyng Hazel Thomas |
| b. | Eisteddfod Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan. £25 C: Cyng Alwena Williams E:Cyng Emyr Rees |
| c. | Eisteddfod 2020 – Pwyllgor Apel Llanwenog a Llanwnnen. £1000 C: Cyng Hazel Thomas E: Cyng Bryan Thomas |
| **6.** | **Cynllunio - Planning** |
| a. | A181175 - Tynfron, Llanwenog – Erection of 5 hardstanding pitches and access – Dim gwrthwynebiad / No objection |
| **7.** | **Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf - Date and time of next meeting** |
| a. | Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 5ed o Chwefror am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. *It was decided to hold the next meeting on the 5th January at 7.30pm at Drefach Village Hall.* |
| b. | Baner Cymru / Welsh Flag – Mae angen baner newydd yn Nrefach. Clerc i brynu un. *A new flag is required in Drefach. Clerk to order.* |
| c. | Mae angen cwpwrdd ffeilio a printer newydd ar y Clerc. Cytunodd pawb bod hyn yn iawn. *The Clerk requires a new filing cabinet and printer. Everyone agreed that this would be fine.* |

| | |
|---|---|
| ch. | Heol Cors y Fran Road – Mae dal angen torri'r cloddiau yma, nid yw'r gwaith sydd wedi ei wneud yn ddigonol. Efallai bydd angen cyfarfod safle. Y Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir. The trees and hedges have not been cut back in some places, meaning the work is not complete. Maybe a site meeting will be necessary. The Clerk to ask the County Council. |

**Arwyddwyd…………………………….**

**Dyddiad……………………….**

**Cyngor Cymuned Llanwenog Community Council**

**Adroddiad Cwarterol / Quarterly Budget**

**1.4.2018-31.3.2019**

**Income**

| | **Budget** | **Actual 31.12.2018** |
|---|---|---|
| Balance bought forward | £8000 | £8602.70 |
| Precept | £8000 | £7837.70 |
| Grants | £0 | £0.00 |
| VAT repayment | £200 | £0 |
| Street Lights | £25 | £0 |
| Interest | £1 | £0.08 |
| Other | £500 | £555 (Taith dros Fywyd), £10.85 (HMRC) |
| **Total:** | **£16726** | **£17006.33** |

**Expenditure**

| | **Budget** | **Actual 31.12.2018** |
|---|---|---|
| Clerk's Salary | £2400 | £1800 |
| HMRC | £600 | £299.49 |
| Insurance | £500 | £317.88 |
| Expenses | £600 | £98.19 + £100 One Voice Wales Awards = £298.19 |
| Translation | £400 | £204.06 |
| S137 | £1000 | £279.90 |
| BDO + Audit | £300 | £250.00 |
| Chairman's Allowance | £350 | |
| Equipment | £100 | |
| Membership | £150 | |

| | | |
|---|---|---|
| Poppy Wreath | £15.00 | £15.00 |
| War Memorial | £200.00 | £72.60 (Remembrance Sunday) |
| Street Lights | £25.00 | |
| ROSPA Inspection | £50.00 | |
| Llogi Neuadd | £60 | |
| Deddf Hapchwarae | £20 | |
| Kiosk Maintenance | £200 | |
| Walk for Life | £500 | £555.00 |
| Other | £0 | £35.00 (Data Protection Act Fee) |
| **Total:** | **£6755.00** | **£4,027.12** |